

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Tonyrefail, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mai 2025

Dyddiad cyhoeddi: 15 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	21
Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Tonyrefail, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn MyDentist, Tonyrefail yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais a'u bod yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau ar-lein, dros y ffôn neu'n bersonol wrth y dderbynfa.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Dywedodd pawb ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhai o'r staff yn gwisgo bathodyn laith Gwaith i ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi fel mater o drefn yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Rhaid i'r practis wneud mwy i nodi dewisiadau iaith er mwyn cefnogi cyfathrebu effeithiol a helpu i ddiwallu anghenion unigol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod copïau o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion eu gweld ar wefan y practis.
- Sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yng nghofnodion pob claf er mwyn cadw dogfennaeth glinigol gywir a chyflawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd datganiad mynediad ar gael a oedd yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am gyfyngiadau'r amgylchedd a'r adeilad i bobl ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus. Roedd y

deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu dihalogi a'u sterileiddio. Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer defnyddio meddyginiaethau a chyfarpar clinigol yn ddiogel. Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ac roedd arweinydd diogelu wedi'i benodi. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid darparu cyfleusterau diogel i'r staff storio eitemau personol
- Cofnodi profion sgrinio canser y geg yn gyson yng nghofnodion cleifion
- Sicrhau bod delweddau pelydr-X yn cael eu graddio gan ddefnyddio'r system dau bwynt newydd yn unol â chanllawiau arferion gorau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir
- Roedd y staff yn gweithio gyda chleifion a theuluoedd ar ôl i blant golli apwyntiadau er mwyn asesu a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, radiograffau, prosesau rhagnodi a gwastraff gofal iechyd.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yr oedd y staff wedi'u llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Roedd systemau a chofnodion cadarn ar waith ar gyfer recriwtio a chyflogi staff ac roedd cydymffurfiaeth y staff hyfforddiant gorfodol a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig corfforaethol er mwyn helpu i reoli a gwella ansawdd y gwasanaeth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am eu profiadau yn y practis. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth dda o daflenni a phosteri wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros. Roedd y taflenni a'r posterï hyn yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y gwasanaethau a'r triniaethau a ddarperir, sut i gynnal hylendid deintyddol ac iechyd da y geg, a ffioedd triniaethau.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod iechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall. Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da y geg a chanllawiau ar beth i'w wneud pe bai haint neu argyfwng, a gyda phwy y dylid cysylltu.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir, a oedd yn sicrhau tryloywder i gleifion. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau i'w gweld yn glir ar y drws ffrynt. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem frys.

Roedd copïau o ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion diweddaraf y practis ar gael ar y safle i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y practis, syn un o ofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch, ac roedd yn amlwg bod y staff wedi meithrin cydberthnasau da â'u cleifion. Roedd

pawb ond un a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd mesurau ar waith yn y practis i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd preifat i gael sgysiau, ac roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod triniaethau. Nid oedd gwydr yn ffenestr drws un o'r deintyddfeydd, a dywedwyd wrthym ei fod wedi cael ei dorri ar ddamwain ac nad oedd y ddeintyddfa yn cael ei defnyddio ar y pryd. Cadarnhaodd y practis fod darn newydd o wydr wedi cael ei osod yn dilyn yr arolygiad.

Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a sefydlwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd aros ar y llawr gwaelod a'r llawr uchaf.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn dechrau triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion wyth claf a gwelsom un achos lle nad oedd gwiriad hanes meddygol gan y deintydd wedi cael ei gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion pob claf er mwyn cadw dogfennaeth glinigol gywir a chyflawn.

Gwelsom dystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi yng nghofnodion pob un o'r wyth claf dan sylw, a oedd wedi helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd pawb ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd apwyntiadau wrth

gyrraedd. Dywedwyd wrthym mai'r amser aros cyfartalog rhwng pob apwyntiad am driniaeth oedd tua phythefnos i dair wythnos.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau ar-lein, dros y ffôn neu'n bersonol wrth y dderbynfa. Byddai cleifion yn cael neges destun i'w hatgoffa am eu hapwyntiad 48 awr ymlaen llaw.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddodd dau glaf a gwblhaodd holiadur AGIC mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod rhai o'r staff yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith i ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd poster hefyd wedi'i arddangos yn y ddwy ystafell aros yn rhoi gwybod i gleifion y gallent gael gwasanaethau yn Gymraeg pe baent yn dymuno hynny. Fodd bynnag, dylai'r practis fod yn ymwybodol bod un o'r ddau ymatebwr sy'n siarad Cymraeg yn dal i deimlo nad oedd wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod ei daith fel cleifion. At hynny, ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yn y sampl o gofnodion wyth claf y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewisiadau iaith cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn cefnogi cyfathrebu effeithiol a diwallu eu hanghenion unigol.

Dyweddodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd yn gadarnhaol gweld bod fersiynau print bras o ffurflenni hanes meddygol ar gael i helpu cleifion ag amhariadau ar eu golwg neu anawsterau darllen.

Hawliau a chydaddoldeb

Gwelsom fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy bolisiau'r practis a hyfforddiant y staff. Dywedwyd wrthym y byddai nodiadau yn cael eu hychwanegu at gofnodion cleifion i ddangos yr enwau a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt er mwyn helpu i gynnal eu hawliau. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio, a gwnaethant ddweud wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Gwelsom nad oedd y practis yn gwbl hygyrch neu addas i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd ramp cludadwy ar gael i fynd i mewn i'r adeilad. Fodd bynnag, nid oedd lifft i'r cyfleusterau ar lawr cyntaf yr adeilad, a oedd yn cynnwys y prif doiled i gleifion a deintyddfa. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y toiled i gleifion yn addas i bobl mewn cadair olwyn. Roedd yn gadarnhaol bod y practis wedi paratoi datganiad mynediad a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am gyfyngiadau'r

amgylchedd a'r adeilad. Dywedwyd wrthym hefyd fod cynlluniau gwagio mewn argyfwng ar waith ar gyfer pob claf y byddai angen cymorth arno i adael yr adeilad mewn argyfwng.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod ac roedd arwyddion priodol ar eu cyfer, ac roedd tystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy cyfredol, archwiliad bob pum mlynedd o osodiadau trydanol a gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy wedi'i arddangos yn glir i'r staff ei weld, a gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, ynghyd â gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau brys fel methiant yn y system. Roedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt y tîm ymateb i argyfyngau dynodedig a rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer contractwyr.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gyfleusterau storio ar gael i'r staff storio eu heitemau personol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu cyfleusterau storio diogel i'r staff fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Roedd rhestr wirio ar gyfer glanhau ym mhob deintyddfa, a gwelsom fod y rhestrau hyn wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd. Dywedodd pob un o'r

ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiled i gleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig, wedi'i lleoli i ffwrdd o'r cyfleusterau clinigol. Roedd system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol amlbro yn effeithiol eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal.

Gwelsom fod y gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu i'w waredu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio, storio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Ar adeg yr arolygiad, cadarnhaodd y practis nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio ar y safle.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyffuriau brys yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) a chymorth cyntaf.

Dywedwyd wrthym y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd arweinydd diogelu dynodedig yn y practis. Gwelsom fod polisi addas ar waith mewn perthynas â diogelu a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Gwnaethom nodi bod y manylion cyswllt diogelu hefyd wedi'u harddangos yn yr ystafell staff fel bod modd eu gweld yn hawdd mewn argyfwng.

Roedd gan y practis bolisi penodol i ddiogelu plant nad oeddent yn dod i'w hapwyntiadau. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cysylltu â rhieni a thelueoedd plant ar ôl iddynt golli apwyntiad er mwyn asesu a oedd angen cymryd camau pellach, gan gynnwys gwneud atgyfeiriad diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar brosesau amddiffyn plant ac oedolion a'u bod yn gwybod gyda phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt bryder.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar yn ymddangos mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Roedd gan y practis ffeil diogelu rhag ymbelydredd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nododd y clinigwyr fod cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom nodi ei bod yn hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X, a gwelsom fod gweithdrefnau priodol a chofnodion cynnal a chadw ar waith.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau diogel ar gyfer trin cleifion a chawsom sicrwydd bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan oedd triniaeth yn cael ei darparu. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel yn unol â pholisi rheoli cofnodion y practis.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion wyth claf. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Roedd pob cofnod a welsom wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Gwelsom dystiolaeth fod siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau o feinweoedd meddal, cynlluniau ac opsiynau triniaeth ac Archwiliad Periodontol Sylfaenol wedi'u nodi'n briodol. Roedd yr holl gofnodion yn dangos bod y cyfnod adalw yn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE).

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod profion sgrinio canser y geg yn cael eu cynnal na'u cofnodi yn chwech o'r wyth cofnod
- Roedd un o'r deintyddion yn defnyddio system raddio tri phwynt ar gyfer delweddau pelydr-X, ond yr arfer presennol yw defnyddio'r system dau bwynt i raddio delweddau pelydr-X yn dderbyniol neu'n annerbyniol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd yn ymddangos bod nifer y deintyddfeydd a nifer y sesiynau clinigol a ddarparwyd gan y deintyddion yn diwallu anghenion y cleifion. Roedd hylenydd ar gael yn y practis i ddarparu gofal ataliol rheolaidd a gwella gofal cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys yn cael eu cynnwys yn yr amserlen ddyddiol a bod cleifion y mae angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu a'u gweld ar yr un diwrnod lle bo modd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda fel tîm.

Roedd strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn cael ei gefnogi gan rwydwaith cynhwysfawr drwy ei gorff corfforaethol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn fisol ar gyfer staff practisau cangen Tonyrefail a Thonysguboriau.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, a oedd wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff wedi llofnodi a dyddio'r polisiau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio, a oedd yn cynnwys cynnal gwiriadau addasrwydd i weithio addas ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau hyn yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys disgrifiadau swydd, contractau cyflogaeth a geirdaon ysgrifenedig ar gyfer y cyflogeion. Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio staff asiantaeth. Caiff unrhyw fylchau yn y rota eu llenwi gan staff o bractisau cangen cyfagos.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn bodloni'r gofynion o ran eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol i drafod ei berfformiad a phennu amcanion.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Ceisiwyd adborth gan gleifion yn rhagweithiol. Anfonir arolwg at gleifion drwy neges destun ar ôl pob apwyntiad. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros ar y llawr uchaf er mwyn i gleifion roi adborth ar unwaith.

Dywedwyd wrthym y caiff canlyniadau'r arolwg eu coladu'n gorfforaethol, ac y rhoddir gwybod i'r practis am y canlyniadau ac unrhyw gamau gweithredu neu themâu a nodwyd. Roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros ar y llawr uchaf, yn dangos y camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Roedd cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi'n electronig gan nodi'r manylion llawn ac unrhyw gamau a gymerwyd. Roedd cwynion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi tueddiadau neu wersi a ddysgwyd. Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol i ddeall eu cyfrifoldebau proffesiynol o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, polisiau a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff. Gwelsom fod polisiau priodol ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer trin gwybodaeth cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull cynhwysfawr o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, radiograffau, rhagnodi a gwastraff gofal iechyd.

Roedd adnodd rheoli busnes corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i fonitro a dangos cydymffurfiaeth ag asesiadau risg, archwiliadau a safonau arferion gorau eraill.

Caiff gwybodaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion, gan gynnwys rhybuddion, ei monitro gan dîm corfforaethol MyDentist a'i rhannu â phob aelod o'r staff drwy'r canghennau.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Tonyrefail

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Tonyrefail

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd y datganiad o ddiben na'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion eu gweld ar wefan y practis fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis.	Rheoliad 5 a Rheoliad 6	Mae cais am hyn wedi'i wneud i dîm marchnata MyDentist ac mae wrthi'n cael ei gwblhau.	Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio	31/08/2025
2. Wrth i ni edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom un achos lle nad oedd gwiriad hanes meddygol a gynhaliwyd gan y deintydd wedi'i gofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion pob claf er mwyn cadw dogfennaeth glinigol gywir a chyflawn.	Rheoliad 20	Mae rheolwr y practis wedi trafod â phob clinigydd bwysigrwydd sicrhau bod hanes meddygol pob claf yn cael ei wirio a'i gofnodi cyn pob apwyntiad. Caiff gwaith monitro pellach ei wneud fel	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

				rhan o'r archwiliadau o gardiau cofnodi.		
3.	Nid oedd dewisiadau iaith wedi'u cofnodi yng nghofnodion yr wyth claf y gwnaethom edrych arnynt.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewisiadau iaith cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn cefnogi cyfathrebu effeithiol a diwallu eu hanghenion unigol.	Rheoliad 20	Mae'r Cynnig Rhagweithiol bellach wedi'i roi ar waith a chaiff yr iaith a ffefrir gan gleifion ei chofnodi yn nodiadau clinigol R4.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
4.	Nid oedd unrhyw gyfleusterau storio ar gael i'r staff storio eu heitemau personol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu cyfleusterau storio diogel i'r staff fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.	Rheoliad 22	Mae loceri personol wedi'u prynu ar gyfer pob aelod o'r tîm.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
5.	Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y nodiadau clinigol yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.	Rheoliad 20	Mae templed pob clinigydd ar gyfer cwblhau nodiadau cleifion wedi'i ddiweddarau i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â chanllawiau a safonau proffesiynol.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sara Haworth

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17 Gorffennaf 2025